**CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU: PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

**ADRODDIAD 1999-2000**

**<u>Cynllun</u>**

[Rhagair gan y Cadeirydd]

1. Cefndir

2 . Crynodeb o weithgareddau'r pwyllgor hyd yn hyn.

a. Perthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd
b. Trefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKRep a Llywodraeth y DU
c. Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried materion Ewropeaidd
d. Monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau'r polisïau a ddilynir gan sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru.

3 Rhagolwg

Atodiadau

Atodiad A: Pwyllgor Materion Ewropeaidd – Cylch Gwaith

Atodiad B: Aelodaeth y Pwyllgor Materion Ewropeaidd.

xxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxxx

**RHAGAIR GAN Y CADEIRYDD**

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD**

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r gwaith y mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd ag ef hyd yn hyn i alluogi'r Cynulliad Cenedlaethol i sefydlu perthynas ag Ewrop sy'n ddeinamig ac o fudd i'r

ddwy ochr.

Mae'r dimensiwn Ewropeaidd yn bwysig yng nghymaint o waith y Cynulliad Cenedlaethol. Mae angen i ni sicrhau y cymerir ystyriaeth lawn o anghenion a blaenoriaethau Cymru a'n bod mewn sefyllfa i fanteisio ar y cyfleoedd a fydd o les i'n gwlad. Hefyd, mae gan y Cynulliad gyfle i gynyddu amlygrwydd Cymru yn Ewrop ac i chwarae ei ran unigryw ei hun wrth ddatblygu polisïau yn y DU ac yn Ewrop.

Bydd cyflawni'r dyheadau pwysig hyn yn ymofyn am ddull strategol ac mae'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn helpu i roi'r mecanwaith priodol yn ei le. Mae'n hanfodol gweithio mewn partneriaeth ag eraill sy'n rhan o'r broses Ewropeaidd o lunio penderfyniadau. Oherwydd hyn, yn ogystal ag Aelodau'r Cynulliad, mae aelodaeth y Pwyllgor yn cynnwys holl ASE'au Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau a Phwyllgor Economaidd a Chymdeithasol yr Undeb Ewropeaidd. Hefyd, rydym wedi sefydlu Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd ar gyfer cyfnewid gwybodaeth a barn yn fwy cyffredin. Rydym hefyd wrthi'n datblygu perthynas â llywodraethau rhanbarthol eraill a chreu cysylltiadau mwy uniongyrchol â'r gwahanol sefydliadau Ewropeaidd. Bydd gan Swyddfa newydd y Cynulliad ym Mrwsel a'n haelodaeth o Ganolfan Ewropeaidd Cymru ran bwysig i'w chwarae yn yr holl feysydd hyn. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi annog rhaglen ehangach o secondiadau staff er mwyn bod mwy o'n swyddogion yn medru datblygu dimensiwn Ewropeaidd i'w gweithgareddau, gan adeiladu ar y profiadau a'r cysylltiadau y maent wedi'u datblygu.

Mae aelodau'r Pwyllgor o bob plaid wedi wynebu'r gorchwyl hyd yn hyn â brwdfrydedd ac ymdeimlad cyffredin o bwrpas. Edrychaf ymlaen at y Pwyllgor yn parhau ei waith yn unol â'r ysbryd cadarnhaol hwn. Mae'n hanfodol bwysig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud popeth o fewn ei allu i sicrhau y gall Cymru chwarae rhan lawn a chreadigol yn Ewrop.

**Rhodri Morgan AC AS**

**Cadeirydd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd**

## 1. CEFNDIR

1.1 Pennir cylch gwaith y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yn y Rheolau Sefydlog (Atodiad A). Ceir rhestr o'i aelodau yn Atodiad B. Gwneir yr adroddiad hwn o dan Reol Sefydlog 15.5 a'i fwriad yw rhoi gwybodaeth ar gyfer dadl flynyddol y Cynulliad ar faterion sy'n ymwneud â'r Undeb Ewropeaidd o dan Reol Sefydlog 6.5.

1.2 Yn fras, pwrpas y Pwyllgor Materion Ewropeaidd yw sicrhau bod agwedd strategol gydlynol yn cael ei mabwysiadu gan y Cynulliad Cenedlaethol mewn perthynas ag Ewrop. Bwriad y Pwyllgor yw sicrhau bod pob un o'i bwyllgorau pwnc yn cymryd agwedd gydlynol tuag at gyfrifoldebau'r Cynulliad mewn perthynas â'r Undeb Ewropeaidd. Fodd bynnag, nid rôl y Pwyllgor yw cymryd lle'r pwyllgorau pwnc, ond eu cefnogi a sicrhau nad ydynt yn gweithredu'n ynysig.

1.3 Er mwyn ei gwneud yn fwy hwylus i gyfnewid gwybodaeth yn rhydd a chyson rhwng Aelodau'r Cynulliad a chynrychiolwyr Cymru yn y gwahanol sefydliadau Ewropeaidd, cytunodd yr aelodau y dylai:

- ASE'au Cymru;
- Cynrychiolwyr Cymru ar y Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol;
- Cynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau;
- Cynrychiolwyr y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru; a
- Phennaeth Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel

gael papurau'r Pwyllgor yn rheolaidd a'u bod yn rhydd i siarad mewn unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor. Gofynnwyd i'r cynrychiolwyr hyn roi gwybodaeth reolaidd i'r Pwyllgor am ddatblygiadau Ewropeaidd sydd o ddiddordeb i'r Cynulliad.

## 2. CRYNODEB O WEITHGAREDDAU'R PWYLLGOR HYD YN HYN

2.1 Mae Cylch Gwaith y Pwyllgor yn ei gwneud yn ofynnol iddo gadw llygad ar:

(i) berthynas y Cynulliad â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd, a'i ddulliau o hysbysu a chynghori'r sefydliadau yngln ag anghenion Cymru;

(ii) trefniadau'r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKRep, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig yngln â materion Ewropeaidd;

(iii) dulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy'n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan roi sylw arbennig i'r angen am gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop sy'n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy'n berthnasol i Gymru yn

benodol.

Mae’n ofynnol i’r Pwyllgor hefyd fonitro effaith gyffredinol a chanlyniadau’r polisïau a ddilynir gan sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru.

2.2 Ystyrir gweithgareddau’r Pwyllgor ym mhob un o’r meysydd hyn isod.

**Perthynas y Cynulliad â sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd**

2.3 Mae natur y **gynrychiolaeth sydd gan y Cynulliad ym Mrwsel** wedi bod yn flaenoriaeth i’r Pwyllgor. Er bod profiadau’r rhanbarthau eraill wrth ffurfio cynrychiolaeth ym Mrwsel wedi bod yn ysgol dda, cytunodd y Pwyllgor bod yn rhaid i Gymru fod â’i dull penodol ei hun er mwyn cwrdd ag amgylchiadau Cymru.

2.4 Roedd yr aelodau yn cydnabod bod dod i drefniant gyda Chynrychiolaeth Barhaol y DU i’r Undeb Ewropeaidd (UKRep) yn hanfodol er mwyn sicrhau statws diplomatig ac er mwyn medru cael yr wybodaeth a roddir i Lywodraeth y DU. Fodd bynnag, oherwydd bod gan y Cynulliad rôl wahanol i’r un a chwaraewyd gan y Swyddfa Gymreig gynt, gwelwyd bod cyfle i elwa ar weithio gyda Chanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) yn ogystal â UKRep.

2.5 Mae gweithgareddau WEC yn cynnwys rhoi cymorth i fonitro polisïau, eiriolaeth a lobïo, rhwydweithio, ymweliadau astudio a darparu gwybodaeth a seminarau yng Nghymru. Gallai hefyd weithio gyda’r Comisiwn Ewropeaidd, Senedd Ewrop a’r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol Ewropeaidd. Fodd bynnag, ni allai weithio gyda’r Cyngor Gweinidogion: rhaid i Gymru wneud hyn fel rhan o’r DU trwy gyfrwng UKRep.

2.6 Gallai’r WEC fod o werth ychwanegol trwy alluogi’r Cynulliad i elwa ar y cysylltiadau a’r proffil a adeiladwyd ganddo hyd yn hyn. Trwy ymuno â’r 76 aelod arall o’r WEC, gallai’r Cynulliad helpu i fwrw ymlaen ag agwedd ‘Tîm Cymru’. Yn wir, mae’r WEC wedi symud i safleoedd newydd yn ddiweddar, yn dilyn y posibilrwydd o gael rôl uwch gyda’r Cynulliad mewn golwg.

2.7 Credai’r aelodau ei bod yn hanfodol bod Cymru yn cael ei chynrychioli ym Mrwsel yn ei hawl ei hun, yn ogystal â bod yno fel rhan o’r DU. O ganlyniad, aeth y pwyllgor ati i gefnogi cynrychiolaeth y Cynulliad ym Mrwsel trwy sefydlu Swyddfa’r Cynulliad yno, gyda swyddogion yn cael statws diplomatig oedd yn rhoi mynediad swyddogol iddynt i Gynrychiolaeth Barhaol y DU i’r Cymunedau Ewropeaidd; a thrwy ddod yn bartner yng Nghanolfan Ewropeaidd Cymru. Bydd Swyddfa’r Cynulliad yn darparu gwasanaethau penodol i’r Cynulliad na fyddai’n briodol i’r WEC eu cynnig, neu wasanaethau na allant eu cynnig.

2.8 Yn ystod y drafodaeth lawn ar 29 Chwefror, pleidleisiodd y Cynulliad o blaid ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru. Agorwyd Swyddfa’r Cynulliad ym mis Mai 2000. Y pennaeth yw Des Clifford a rhoddir cymorth iddo gan Swyddog Gweithredol. Lleolir y ddau aelod o staff y Cynulliad yn yr un adeilad â’r WEC a byddant hefyd yn medru gweithredu yn swyddfeydd Cynrychiolydd Parhaol y DU (UKRep) fel diplomyddion llawn. Cafodd Aelodau’r Pwyllgor gyfle i ymweld ag adeiladau newydd Canolfan Ewropeaidd Cymru yn ystod eu hymweliad â Brwsel ar 2 a 3 Mawrth.

2.9 Blaenoriaeth arall i’r Pwyllgor fu secondiadau i Sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd. Yn y gorffennol, cynllunid secondiadau o blith gweision sifil y Swyddfa Gymreig i Frwsel yn bennaf er mwyn cynorthwyo unigolion i ennill profiad ehangach a hybu eu gyrfaoedd. Yn hyn o beth, ystyrid secondiadau i’r UE yn yr un cyd-destun â rhai i sefydliadau eraill yng Nghymru.

2.10 Teimlai’r Aelodau ei bod yn fwy priodol yn awr ystyried secondiadau o’r UE o ran hyrwyddo buddiannau’r Cynulliad a sicrhau, pan fyddai’r unigolion yn dychwelyd i’r Cynulliad, y byddent yn cael eu rhoi mewn swyddi a fyddai'n manteisio ar eu profiad ym Mrwsel. Hysbysebwyd i’r staff y posibilrwydd o secondiadau i’r UE ar 19 Tachwedd ac mae diddordeb sylweddol eisoes wedi’i ddangos.

2.11 Mae’r Pwyllgor wedi annog y Cynulliad i ymgymryd â dull mwy strategol o osod unigolion yn y sefydliadau Ewropeaidd. Mae Swyddfa’r Alban a Llywodraeth Iwerddon wedi cymryd amser i osod eu swyddogion mewn swyddi allweddol yn Ewrop mewn ffordd nad oedd Cymru wedi’i wneud yn y gorffennol. Mae’r Aelodau’n credu ei bod yn hanfodol manteisio i’r eithaf ar ddoniau’r staff o fewn pwll cymharol fychan y Cynulliad. Mae’r Cynulliad wedi cytuno ar darged o 6 secondiad y flwyddyn erbyn 2003. Hefyd, mae gan Gymru’r fantais o fedru secondio staff i Swyddfa’r Cynulliad ac i’r WEC.

2.12 Uchafbwynt y flwyddyn oedd **ymweliad y Pwyllgor â Brwsel** ar 2 a 3 Mawrth a fu’n llwyddiant ysgubol. Cymerodd pob Aelod o’r Pwyllgor ran mewn rhaglen lawn o gyfarfodydd a gweithgareddau. Ar ddiwrnod cyntaf yr ymweliad, cyfarfuwyd ag ASE’au o Gymru, aethpwyd ar daith o amgylch y Senedd Ewropeaidd, ymwelwyd â’r adeilad newydd gan fynychu derbyniad a drefnwyd gan Ganolfan Ewropeaidd Cymru a chinio gan Gynrychiolydd Parhaol y Deyrnas Unedig. Roedd ail ddiwrnod yr ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd gydag uwch swyddogion o Gynrychiolaeth Barhaol y Deyrnas Unedig, derbyniad gan y Comisiynydd Kinnock a oedd yn cynnwys cyfle i gyfarfod â phobl o’i Gabinet a chynrychiolwyr eraill o’r Comisiwn Ewropeaidd yn ogystal â chyflwyniadau gan nifer o swyddogion o Gymru sy’n gweithio i’r Comisiwn. Hefyd, galluogodd yr

ymweliad i'r Pwyllgor gyflwyno'n ffurfiol gais y Cynulliad i ymaelodi â Chanolfan Ewropeaidd Cymru (WEC) ac i bwysleisio agoriad buan Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel.

2.13 Hefyd, bu arwyddocâd symbolaidd i'r ymweliad oherwydd ei fod yn dangos i bob aelod mor bwysig yw amlygu Cymru a'r Cynulliad Cenedlaethol yn Ewrop. Bu'r ymweliad yn gymorth i bwysleisio presenoldeb mwy amlwg i Gymru ym Mrwsel a gwnaeth ddatganiad clir o benderfyniad casgliadol y Cynulliad i ffurfio a chynnal perthynas waith dda â'r sefydliadau yn Ewrop.

2.14 Hefyd, rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i:

- Bapur Gwyn gan y DU ar Ddatblygiadau yn yr UE a ryddheir bob chwe mis.

- Cynrychiolaeth y Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru. Sefydlwyd swyddfa'r Comisiwn Ewropeaidd yng Nghymru yn 1973. Mae'n rhan o Ysgrifenyddiaeth Gyffredinol y Gymuned Ewropeaidd ac mae cyfrifoldeb ganddi dros adrodd gwleidyddol, cysylltiadau gwleidyddol a'r wasg a chyfathrebu. Yn ogystal ag anfon adroddiad dyddiol i'r Gymuned Ewropeaidd ar weithgareddau yng Nghymru, mae'r Gynrychiolaeth hefyd yn briffio'r Gymuned Ewropeaidd ar ddatblygiadau o ran datganoli, mae'n darparu gwybodaeth drwy weithio gyda darparwyr lleol ac mae'n cynnal seminarau a sesiynau briffio.

- Sut mae'r Cynulliad yn datblygu cysylltiadau â rhanbarthau dramor, ac yn arbennig felly o ran ei gysylltiadau â rhanbarthau'r "Pedwar Modur", sef Baden-Württemberg (yr Almaen), Catalwnia (Sbaen), Lombardia (yr Eidal) a Rhône-Alpes (Ffrainc); ac ag Oita (Siapan), De Cymru Newydd (Awstralia) ac Ontario (Canada). Cydnabu'r Aelodau fod y manteision sy'n deillio o'r math yma ar raglen yn aml yn ddisylwedd. Fodd bynnag, gallai unrhyw berthynas sy'n codi amlygrwydd Cymru fod yn bwysig yn y tymor hir. Roedd y gweithgareddau presennol i godi amlygrwydd Cymru yn cynnwys datblygu pecyn hyrwyddol mewn cydweithrediad ag asiantaethau eraill megis Awdurdod Datblygu Cymru, Bwrdd Croeso Cymru a'r WEC.

- Y rhan y mae'r Cynulliad yn ei gymryd yn y Sefydliadau Ewropeaidd megis Pwyllgor y Rhanbarthau, Cyngres yr Awdurdodau Lleol a Rhanbarthol, Cynulliad y Rhanbarthau Ewropeaidd a Chynhadledd y Rhanbarthau Morol Ymylol.

**Trefniadau y Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKRep a Llywodraeth y DU**

2.15 Llywodraeth y DU yw'r prif gyfrwng ffurfiol ar gyfer cynrychiolaeth Cymru o fewn sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd. Cydnabu'r Aelodau y byddai'n bwysig i Ysgrifenyddion y Cynulliad fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion ym Mrwsel, nid yn unig oherwydd mai dyma lle y gwneir penderfyniadau sy'n effeithio

ar Gymru, ond hefyd er mwyn rhoi mwy o amlygrwydd i Gymru.

2.16 Cydnabu'r Pwyllgor ei bod yn hanfodol i'r Cynulliad Cenedlaethol sefydlu sianelau effeithiol i sicrhau y clywir llais Cymru o fewn y DU cyn i'r DU roi sylwadau i sefydliadau'r UE. Papur 02-00 para 1-2 Tra bo cyfansoddiadau ffederal, fel yr Almaen, yn trefnu mai haenau penodol o'r llywodraeth sy'n gwbl gyfrifol am faterion penodol, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhannu'r cyfrifoldeb dros yr holl feysydd polisi a nodir yn y Gorchymyn Trosglwyddo gyda llywodraeth y Deyrnas Unedig. Mae'n hanfodol felly bod y Cynulliad mewn cysylltiad clòs gyda phrif Adrannau Whitehall mewn perthynas â pholisïau domestig ac Ewropeaidd, ac amlinellir y trefniadau ar gyfer hynny yn y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth a'r Concordat ar Gydlynu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd. Y concordatau yw'r modd mwyaf uniongyrchol o sicrhau dylanwadu ar ddatblygu polisi. Ystyriodd yr Aelodau mewn manylder Adroddiad ar y Concordat rhwng Cabinet Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth y DU ar Gydlunio Materion Polisi yn yr Undeb Ewropeaidd.

2.17 Gwnaed barn y Pwyllgor yn glir ar y cynigion gogyfer â'r Gynhadledd Rynglywodraethol bresennol. Roedd llawer o agenda'r IGC yn ymwneud â dod â sefydliadau'r Undeb Ewropeaidd i sefyllfa lle y gall wasanaethu'n iawn gyda hyd at 27 aelod posibl. Mae'r canlyniadau i Gymru yn debygol o fod ar y cyfan yn anuniongyrchol. Y Concordat ar faterion polisi'r UE sy'n diffinio'r mecanwaith i Gymru gael mewnbwn i'r Gynhadledd ac i lywodraethau rhanbarthol gael eu cynrychioli yn y dirprwyaethau cenedlaethol. Mae hyn yn bodoli rhwng y Cynulliad a'r Swyddfa Dramor. Ystyr hyn yw fod y Cynulliad yn derbyn gwybodaeth am ddatblygiad safbwynt y DU ac y gall ddylanwadu ar hynny. Cytunodd yr Aelodau y dylid hysbysu'r Swyddfa Dramor am farn y Pwyllgor ar nifer yr ASE'au yng Nghymru; cymhwysedd ac effeithlonrwydd Llys Iawnderau Ewrop; a phleidleisio gan fwyafrif cymwys ar faterion diwylliannol.

**Gweithdrefnau'r Cynulliad ar gyfer ystyried Materion Ewropeaidd**

2.18 Mae proses llunio polisïau'r Undeb Ewropeaidd yn un hir a chymhleth, ac mae wedi esblygu dros y blynyddoedd trwy gyfrwng newidiadau i'r Cytundeb a newidiadau anffurfiol i'r gweithdrefnau. Mae tri cham i'r broses llunio polisi yn yr Undeb Ewropeaidd : cyn-ddeddfwriaethol (anffurfiol); deddfwriaethol (ffurfiol); a gweithredu.

<u>Cam Cyn-ddeddfwriaethol (Anffurfiol)</u>

2.19 Daw syniadau am bolisïau'r Comisiwn o amryfal ffynonellau, er mai'r Comisiwn yn unig, yn ffurfiol, all roi cychwyn ar y broses llunio polisi. Mae

swyddogion y Comisiwn yn croesawu trafodaethau gydag amrediad eang o bobl yn ystod y cam hwn, a hoffant glywed gwahanol farn gan fod y math hwn o gyfraniad yn gwella ansawdd y polisi drafft a geir o'r Comisiwn. Mae Rhaglen Waith Flynyddol y Comisiwn, strategaeth pum mlynedd y Comisiwn, blaenoriaethau'r Llywyddiaeth a chasgliadau cyfarfodydd y Cyngor Ewropeaidd yn rhoi syniad da o'r prif faterion sy'n cael eu hystyried ar unrhyw adeg benodol.

2.20 Bydd y cam polisïau anffurfiol yn dod yn fwyfwy pwysig gan fod yr Undeb Ewropeaidd yn ddiweddar wedi symud oddi wrth ddeddfwriaeth i gyfeiriad cydlynu polisi. Bydd llawer o agenda Lisbon yn cael ei weithredu trwy gydlynu polisïau'n wirfoddol gan Aelod-Wladwriaethau trwy gyfrwng meincnodau, yn hytrach na deddfwriaeth yr UE. Mae'r rhan fwyaf o gynigion yn y cam cyn-ddeddfwriaethol yn cyfeirio at faterion manwl a thechnegol.

2.21 Yn y gorffennol, câi Adrannau Polisi'r Cynulliad fanylion am gynigion y Comisiwn trwy nifer o ffyrdd:

- Gan yr Is-adran Materion Ewropeaidd, sy'n gweithredu fel man cydlynol ar gyfer yr holl wybodaeth a ddaw i'r Cynulliad sy'n ymwneud â'r UE (cafodd 7273 o ddogfennau eu derbyn a'u dosbarthu ym 1999)
- Gan adrannau arweiniol yn Whitehall, sy'n gorfod darparu gwybodaeth fel yr amlinellwyd yn y Memorandwm Cyd-Ddealltwriaeth a'r Concordatau
- Gan gysylltiadau personol gyda swyddogion y Comisiwn, UKRep neu ffynonellau eraill.

Mae Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol hefyd yn cael gwybodaeth trwy Ymgynghorwyr Cyfreithiol Swyddfa'r Cabinet ac Is-adran Ewropeaidd Cyfreithwyr y Trysorlys.

2.22 Ystyriodd yr Aelodau sut y gallai'r Cynulliad dderbyn a dylanwadu yn y modd mwyaf effeithiol ar y cam hwn. Cytunwyd ar broses i alluogi'r Pwyllgorau Pwnc i ystyried y dimensiwn Ewropeaidd o fewn eu rhaglenni gwaith. O dan y trefniadau presennol, dylai pwyllgorau pwnc ystyried polisïau sy'n berthnasol i'w swyddogaethau. Fodd bynnag, roedd angen datblygu mecanwaith i wneud y pwyllgorau pwnc yn ymwybodol o'r materion sydd o ddiddordeb iddynt. Byddai hyn hefyd yn helpu i bwysleisio rôl gydlynol y Pwyllgor Materion Ewropeaidd a'i allu i gefnogi'r Pwyllgorau Pwnc yn eu gwaith.

2.23 Ym mis Tachwedd 1999 ysgrifennodd y Prif Ysgrifennydd ar y pryd at holl Ysgrifenyddion y Cynulliad yn gofyn iddynt gomisiynu adolygiadau o effaith polisïau'r Undeb Ewropeaidd ar eu meysydd cyfrifoldeb. Comisiynwyd pum papur:

- Datblygu Economaidd
- Amaethyddiaeth

- Addysg a Hyfforddiant
- Iechyd
- Trafnidiaeth, Cynllunio a’r Amgylchedd

Mae’r holl adroddiadau hyn wedi’u cwblhau a’u hanfon at yr Ysgrifennydd Cynulliad perthnasol. Anfonwyd yr adroddiadau hyn gan Ysgrifenyddion y Cynulliad at y Pwyllgorau Pwnc.

Cam Deddfwriaethol (Ffurfiol)

2.24 Caiff holl bolisïau’r UE eu drafftio gan swyddogion y Comisiwn, ac mae cam deddfwriaethol ffurfiol y broses llunio polisïau yn cychwyn pan fo’r Comisiwn yn cyhoeddi cynnig. Dibynna union lwybr y cynnig trwy sefydliadau eraill ar ei sail gyfreithiol, ac a yw’n amodol ar gyd-benderfyniad ai peidio. Bellach, ystyrir y rhan fwyaf o gynigion gan Gyngor y Gweinidogion a’r Senedd Ewropeaidd. Mae’r ddau gorff yn dylanwadu’n sylweddol ar y penderfyniad terfynol. Ymgynghorir â Phwyllgor y Rhanbarthau a’r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol. Fodd bynnag, mae eu Barn yn llai dylanwadol na barn y Senedd Ewropeaidd.

2.25 Mae’n bwysig sefydlu cysylltiadau â chynrychiolwyr ar bob un o’r sefydliadau a’r pwyllgorau perthnasol sy’n ystyried argymhellion y Comisiwn ar gyfer deddfwriaeth:

- **Cyngor y Gweinidogion** – Mae’r Concordat ar Gydlynu Materion Polisi’r Undeb Ewropeaidd yn datgan bod hawl gan Ysgrifenyddion y Cynulliad i fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion fel rhan o ddirprwyaeth y DU lle "…disgwylir cael trafodaethau ar faterion sy'n debygol o gael effaith sylweddol ar eu cyfrifoldebau datganoledig" Bydd disgwyl i Aelodau’r Cynulliad sy’n siarad mewn cyfarfodydd o’r fath "…gefnogi a hybu safbwynt trafod y DU

- **COREPER** – cyfyngir y rhai all fynychu’r Pwyllgor Cynrychiolwyr Parhaol i swyddogion o ddirprwyaeth swyddogol pob Aelod-Wladwriaeth o’r Undeb Ewropeaidd. Cynrychiolir buddiannau Cymru gan Gynrychiolwyr y DU.

- **Gweithgorau** – mae cyfanswm o 190 o Weithgorau. Mae’r rhain yn cynnwys arbenigwyr pwnc o ddirprwyaethau swyddogol (UKRep yn achos Cymru), a gefnogir gan arbenigwyr o’r adran arweiniol yn Whitehall. Gall swyddogion y Cynulliad fynychu lle mae rheswm ganddynt dros wneud hynny, ond nid oes ond ychydig iawn o achosion lle mae hyn wedi digwydd

- **Y Senedd Ewropeaidd, Pwyllgor y Rhanbarthau a’r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol** – mae’r Pwyllgor Materion Ewropeaidd wedi gwahodd aelodau Cymru o

Senedd Ewrop, Pwyllgor y Rhanbarthau a'r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol i fynychu ei gyfarfodydd. Mae'r rhan fwyaf o'r cynrychiolwyr wedi manteisio ar y cyfle ac yn mynychu pan fo'u hymrwymiadau dyddiadur yn caniatáu hynny. Mae hyn wedi rhoi cyfle iddynt gyfrannu at waith y Pwyllgor, ac i'r Pwyllgor elwa o'u gwybodaeth a'u profiad.

2.26 Bu trafod helaeth ynglyn ââ chylch gwaith y Pwyllgor, a'r ffaith bod y Pwyllgor cyfatebol yn Senedd yr Alban yn wreiddiol yn ceisio ystyried yr holl gynigion am ddeddfwriaeth gan y Cyngor Ewropeaidd a dogfennau eraill a ddaw o'r UE. Yn dilyn y profiad a gafwyd yn Senedd yr Alban, mae'r Pwyllgor wedi derbyn na fydd yr amser na'r adnoddau ganddynt hwy na'r pwyllgorau pwnc i archwilio'n ffurfiol yr holl ddeddfwriaeth ddrafft Ewropeaidd sy'n effeithio ar Gymru. Mae rhestr helaeth o ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i'r DU na fyddai'n fanteisiol i'w hystyried o safbwynt Cymru. Teimlodd y Pwyllgor bod system o ganiatáu i Ysgrifenyddion y Cynulliad a'r pwyllgorau pwnc cyfatebol i ddelio â'r ddeddfwriaeth ac unrhyw ddatblygiadau polisi sy'n berthnasol i'w maes hwy, yn ddull mwy effeithiol o ymdrin â hyn. Er hynny, mynegwyd pryderon ynghylch y posibilrwydd y gallai rhai deddfwriaeth UE syrthio ar fin y ffordd, am nad oedd yn ymwneud ag ystod waith unrhyw Ysgrifennydd y Cynulliad.

**Gweithredu**

2.27 Mae dau brif fath o ddeddfwriaeth Ewropeaidd – Rheoliadau a Chyfarwyddebau. Mae Rheoliadau'n rhwymol eu nod ac yn pennu'n union sut i'w rhoi ar waith mewn modd unionffurf ledled yr UE. Mae Cyfarwyddebau'n pennu'r nod, ond fe'u gweithredir ym mhob Aelod-Wladwriaeth trwy is-ddeddfwriaeth, sy'n rhoi i lywodraethau'r hyblygrwydd i'w rhoi ar waith yn unol â'u hamgylchiadau eu hunain, gan gadw at ysbryd y Gyfarwyddeb. Gall methu â gweithredu is-ddeddfwriaeth arwain at achosion torri rheolau, gyda'r Comisiwn yn dwyn achos yn erbyn yr Aelod-Wladwriaeth berthnasol gerbron y Llys Cyfiawnder Ewropeaidd.

2.28 Rhaid i'r Cynulliad gael ei ddynodi dan adran 2(2) o Ddeddf Cymunedau Ewrop 1972 iddo gael y per cyfreithiol i weithredu Cyfarwyddebau Ewropeaidd trwy Offerynnau Statudol. Gwnaethpwyd y Gorchymyn Dynodi cyntaf ym mis Hydref 1999, gan roi pwerau i'r Cynulliad weithredu Cyfarwyddebau mewn perthynas â rhai materion amaeth, coedwigaeth ac iechyd. Gwneir ail Orchymyn Dynodi ynghylch trafnidiaeth, cynllunio a'r amgylchedd yn fuan.

2.29 Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo trefniadau i gadw cofnod o Gyfarwyddebau sydd angen eu trosi'n Offerynnau Statudol. Bydd Gorchmynion drafft a fwriedir i weithredu cyfarwyddebau unigol yng Nghymru, yn cael eu harchwilio yn unol â'r gweithdrefnau a ddisgrifir yn Rheol Sefydlog 22, yn yr un ffordd ag unrhyw ddeddfwriaeth arall y mae'r Cynulliad yn cynnig ei wneud. Mae gan yr Is-Adran

Materion Ewropeaidd system monitro canolog ar gyfer gweithredu trefniadau yng Nghymru, sy’n hanfodol er mwyn sicrhau bod penderfyniadau o safbwynt Ewropeaidd yn cael eu gwneud ar amser, a bod gweithredu o ganlyniad i dorri’r rheolau yn cael ei osgoi. Dim ond yn ddiweddar y rhoddwyd y trefniadau ar waith, felly mae’n rhy gynnar i adolygu’r weithdrefn hon ar hyn o bryd.

**Monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau’r polisïau a ddilynir gan sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru.**

2.30 Cytunodd y Pwyllgor i sefydlu Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd, fyddai’n galluogi cyfranogwyr i dderbyn a chyfnewid gwybodaeth ar faterion Ewropeaidd. Dylai’r Fforwm fod yn archwiliadol a rhyngweithiol, a chael y cyfle i ddatblygu gydag amser. Bydd y rhestr o westeion yn newid yn ôl y pwnc a drafodir, ac yn galluogi mwy o ‘ymarferwyr’ sy’n gweithio ar flaen y gad i roi adborth ar eu profiadau. Byddai ymdriniaeth thematig yn galluogi’r Fforwm i archwilio’r prif themâu’n fanylach, a’r swyddogion i dargedu gwahoddiadau fel canlyniad.

2.31 Cafodd cyfarfod cyntaf **Fforwm Ewropeaidd Cymru** ei gynnal ar 22 Hydref yn Arena Rhyngwladol Caerdydd. Mynychwyd y cyfarfod gan dros 100 o gynrychiolwyr o amrywiaeth o sefydliadau’r sector cyhoeddus, preifat a gwirfoddol. Rhoddodd y Prif Ysgrifennydd anerchiad byr i agor y cyfarfod, cyn cyflwyno Neil Kinnock, Is-Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd, i areithio ar ragolygon y Comisiwn newydd a’r goblygiadau o safbwynt Cymru. Am weddill y diwrnod, rhannwyd y cynrychiolwyr i weithgorau llai. Yn gyffredinol bu’r diwrnod yn llwyddiant, ac fe wnaeth y gweithgorau a’r sesiynau llawn symbylu dadleuon bywiog.

2.32 Cafodd digwyddiad hanner-diwrnod ar "Ewrop a busnes" ei gynnal yn Ne Cymru ym mis Mai 2000, ar y themâu Arian Sengl ac Ehangu’r UE i mewn i Ddwyrain Ewrop, gyda’r Arglwydd Brittan o Spennithorne yn Brif Lefarydd.

2.33 Ystyriodd yr Aelodau hefyd:

- Adroddiad ar Gynhadledd INTERREG, Dulyn, 24 Medi 1999, a ddengys fod y berthynas rhwng Cymru ac Iwerddon ar y prosiect INTERREG wedi bod yn llwyddiannus o safbwynt y ddwy wlad. Mae’r prosiect yn cael ei fwrw ymlaen i ail raglen INTERREG Cymru/Iwerddon.

- Blaenraglen Waith y Comisiwn Ewropeaidd a oedd yn amlinellu’r gwaith hynny y mae’r Comisiwn yn anelu at ei gyflawni yn ystod y flwyddyn bresennol. Un o’r meysydd mwyaf pwysig y byddai’n ei ystyried oedd hyrwyddo dulliau newydd o lywodraethu.

- Blaenoriaethau Arlywyddiaeth Portiwgal.

- Y goblygiadau a'r cyfleoedd i Gymru o ganlyniad i Ehangu'r Undeb Ewropeaidd. Nid newidiadau economaidd yn unig a ddaw yn sgil yr ehangu. Mae'r aelodau arfaethedig newydd yn bennaf o Ganol a Dwyrain Ewrop, ac fe fydd hyn yn effeithio'n fawr ar wleidyddiaeth, diwylliant ac esblygiad yr UE. Mae'r mater o ehangu'n un eang iawn. Fe'i ddewiswyd fel un pwnc ar gyfer ystyriaeth yn y Fforymau Ewropeaidd, ac fe fydd hefyd yn eitem ar agendâu'r Pwyllgor yn y dyfodol.

**Rhagolwg**

3.1 Yn ei gyfarfod diwethaf, cytunodd y Pwyllgor ar yr argymhellion canlynol am rhalgen weithredu systematig a luniwyd i ddatblygu arbenigedd ym materion Ewropeaidd o fewn y Cynulliad, ac annog cysylltiadau agosach â sefydliadau Ewropeaidd. Bydd y Pwyllgor yn adolygu cynnydd drwy'r flwyddyn nesaf.

**Datblygu Arbenigedd**

- Mae angen i Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel a'r Is-adran Materion Ewropeaidd yng Nghaerdydd ddatblygu cysylltiadau agosach gydag Is-adrannau Polisi a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol a'u cynorthwyo i ddeall cyfeiriad strategol yr Undeb Ewropeaidd.

- Mae angen i Is-adrannau Polisi (a Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol) gynyddu'u hymwybyddiaeth o'r Undeb Ewropeaidd a'i ddylanwad ar eu maes gwaith. Gall fod angen nodi swyddogion arweiniol ar lefel gymharol uchel mewn is-adrannau neu Grwpiau i ddatblygu arbenigedd a sefydlu cysylltiadau a gweithdrefnau newydd. Gellid ystyried ymweliadau astudio â Brwsel, a lleoliadau byr yn Swyddfa'r Cynulliad ym Mrwsel. Gallai swyddogion arweiniol ddatblygu amrediad o gysylltiadau yn Whitehall, UKRep, yn y Comisiwn a gyda cynrychiolwyr Cymreig yn sefydliadau'r UE. Gallent ehangu'r arbenigedd o fewn eu His-adrannau trwy hyfforddi eraill.

- Mae Rheolaeth Personél yn ceisio ehangu'r pl o swyddogion gyda phrofiad o'r Undeb Ewropeaidd trwy nodi'r swyddogion sydd â phrofiad perthnasol a sgiliau ieithyddol, ac annog eraill i fagu profiad o'r fath trwy secondiadau.

**Datblygu Cysylltiadau**

- Gall fod angen i rai Is-adrannau ddatblygu cysylltiadau agosach gydag Adrannau arweiniol yn Whitehall. Mae swyddogion eisoes yn mynychu cyfarfodydd yn Llundain

cyn cyfarfodydd y Gweithgorau a Chyngor y Gweinidogion ym Mrwsel er mwyn sicrhau y caiff safbwynt Cymru ei ystyried wrth lunio safbwynt y DU.

- Mae angen datblygu cysylltiadau agosach gydag UKRep. Sefydlodd y Pwyllgor Materion Ewropeaidd gysylltiadau da gydag UKRep yn ystod ei ymweliad â Brwsel ym mis Mawrth, a bydd uwch ddiplomydd yn ymweld â'r Cynulliad i gwrdd â Phenaethiaid Is-adrannau ddiwedd mis Mai. Mae gan rai Is-adrannau Polisi gysylltiadau gwych a hir-sefydlog gydag UKRep tra nad oes gan eraill unrhyw gysylltiadau o gwbl.

- Mae'r Cynulliad yn ddiweddar wedi ymuno â Chanolfan Ewropeaidd Cymru, a rhoddodd y Cyfarwyddwr gyflwyniad i Benaethiaid Is-adrannau ar 14 Ebrill. Mae angen sefydlu cysylltiadau yn awr rhwng Is-adrannau Polisi yn y Cynulliad ac Ymgynghorwyr Polisi yn y Ganolfan.

- Cyfyngir presenoldeb yn y Gweithgorau i swyddogion y llywodraeth neu eu harbenigwyr penodedig. Mae angen clustnodi'r prif Weithgorau sydd yn berthnasol i Gymru, a sefydlu cysylltiadau da gyda'r swyddogion sy'n arwain yn UKRep, a'r swyddogion cynhaliol ym mhrif Adrannau Whitehall. Dylid annog swyddogion y Cynulliad i'w mynychu pan yn briodol.

**Pwyllgorau**

- Dylai'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd gyflwyno materion pwysig i sylw'r pwyllgorau pwnc, yn seiliedig ar Raglen Waith Flynyddol, Rhaglen Pum Mlynedd, Blaenoriaethau Llywyddiath y Comisiwn, casgliadau'r Cynghorau Ewropeaidd, a dadansoddiad Canolfan Ewropeaidd Cymru o bolisïau'r UE a'r blaenoriaethau â glustnodir. Bydd hyn yn gosod syflaen ddefnyddiol i'r Cynulliad ganolbwyntio'i sylw ar y prif faterion. Byddai'n anodd iawn i'r Cynulliad ystyried pob cynnig a ddaw o'r UE. Nid yw rhai o'r cynigion o ddiddordeb uniongyrchol i'r Cynulliad, tra fod eraill yn ymestyn y tu hwnt i'w bwerau. Rhaid i'r Cynulliad ganolbwyntio'i sylw ar y polisïau bydd yn effeithio'n arwyddocaol neu'n cynnig cyfleoedd i Gymru. Bydd presenoldeb MEPs ac aelodau ECOSOC a CoR yng nghyfarfodydd y Pwyllgor, yn eu galluogi i roi gwybodaeth ar gyfer y drafodaeth a hysbysu'r aelodau o unrhyw ddatblygiadau diweddar.

- Bydd angen ail edrych ar y pum papur Adolygu Polisi a'u diweddaru, gan eu hail gyflwyno i'r pwyllgorau pwnc, gan ddechrau yn yr hydref.

**<u>Sefydliadau Ewropeaidd</u>**

- Bydd Ysgrifenyddion y Cynulliad am fynychu cyfarfodydd Cyngor y Gweinidogion pan fo hynny'n briodol. Dylai'r Is-adran Materion Ewropeaidd geisio cael rhybudd mewn da bryd yngln â dyddiadau cyfarfodydd, ac eitemau agenda tebygol Is-adrannau polisi, er

mwyn galluogi Ysgrifenyddion i benderfynu a ydynt am fod yn bresennol ai peidio.

- Dylai’r Cynulliad geisio adeiladu ar y cysylltiadau presennol gyda chynrychiolwyr Cymru yn Senedd Ewrop, ar Bwyllgor y Rhanbarthau a’r Pwyllgor Economaidd a Chymdeithasol. Mae angen i’r Cynulliad allu mynd atynt i drafod materion gellir codi ar ein rhan yn y sesiynau llawn a’r Pwyllgorau. Bydd Swyddfa’r Cynulliad ym Mrwsel mewn sefyllfa dda i gydlynu’r fath gysylltiadau.

**Deddfwriaeth**

- Dylai’r Is-adran Materion Ewropeaidd a Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol drefnu cwrs hyfforddi ar Gyfarwyddebau Ewropeaidd, Gorchmynion Dynodi ac Offerynnau Statudol ar gyfer swyddogion allweddol mewn Is-adrannau Polisi.

- Mae angen adolygu’r trefniadau ar gyfer hysbysu’r Pwyllgorau Pwnc, y Pwyllgor Busnes a’r Pwyllgor Deddfau yngln â’r Cyfarwyddebau sydd angen eu trosi’n Offerynnau Statudol.

3.2 Mae effeithiau Polisïau a deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn ganolog i lawer o gyfrifoldebau’r Cynulliad. Mae’n hanfodol bod y Cynulliad yn gwbl ymwybodol o’r dimensiwn Ewropeaidd sy’n perthyn i’w waith a’i fod yn chwarae rhan weithgar yn hyn o beth. Dengys yr adroddiad hwn bod y Pwyllgor Materion Ewropeaidd, yn ystod ei flwyddyn gyntaf, wedi cynorthwyo’r Cynulliad Cenedlaethol â’r gwaith o ddechrau sefydlu perthynas arbennig a deinamig ag Ewrop. Mae llawer o waith eto i’w wneud a bydd y Pwyllgor yn mynd ati i gadarnhau ac i wella’r berthynas ymhob agwedd o’i waith yn y dyfodol.

RHEOL SEFYDLOG 15 - Y Pwyllgor Materion Ewropeaidd

**Teitl a Chylch Gwaith**

15.1 Bydd Pwyllgor Materion Ewropeaidd, a fydd yn cadw llygad:

(i) ar berthynas y Cynulliad â sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd, a’i ddulliau o hysbysu a chynghori’r sefydliadau yngln ag anghenion Cymru;

(ii) ar drefniadau’r Cynulliad ar gyfer cysylltu ag UKREP, a chydag adrannau llywodraeth y Deyrnas Unedig yngln â materion Ewropeaidd;

(iii) ar ddulliau a threfn y Cynulliad ar gyfer ystyried dogfennau, materion a chwestiynau sy’n deillio o sefydliadau Ewropeaidd, gan roi sylw arbennig i’r angen

am gysylltu ag Aelodau Senedd Ewrop sy’n gyfrifol am graffu ar faterion Ewropeaidd sy’n berthnasol i Gymru yn benodol.

15.2 Bydd y Pwyllgor yn monitro effaith gyffredinol a chanlyniadau’r polisïau a ddilynir gan sefydliadau’r Undeb Ewropeaidd ar gyfer Cymru, ac yn sicrhau bod yna gysylltu digonol ag Aelodau Senedd Ewrop sy’n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau.

15.3 Bydd y Pwyllgor yn osgoi dyblygu gwaith pwyllgorau pwnc, ond caiff dynnu sylw pwyllgorau pwnc perthnasol at faterion penodol. Caiff y Pwyllgor asesu arwyddocâd deddfwriaeth Ewropeaidd arfaethedig sy’n effeithio ar Gymru sy’n dod o fewn cylch gwaith mwy nag un pwyllgor pwnc a chyflwyno adroddiad amdano pan fo rhaid.

**<u>Aelodaeth</u>**

15.4 Bydd y Cynulliad yn ethol Ysgrifennydd Cynulliad i gadeirio’r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo’n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad a chan ystyried pa mor ddymunol y byddai i bob pwyllgor pwnc gael ei gynrychioli ar y Pwyllgor. Gall Aelodau Senedd Ewrop sy'n cynrychioli Cymru a chynrychiolwyr Cymru ar Bwyllgor y Rhanbarthau fod yn bresennol, a chyda chaniatâd y cadeirydd, cânt siarad yng nghyfarfodydd y Pwyllgor pan gynhelir y rheiny yn gyhoeddus, ond ni chânt bleidleisio. Cyn unrhyw gyfarfod, caiff Aelodau o’r Cynulliad sydd â buddiannau etholaethol neu ranbarthol penodol i fynd ar eu trywydd mewn perthynas â gwaith y Pwyllgor geisio caniatâd y cadeirydd i wneud sylwadau i’r Pwyllgor yn y cyfarfod hwnnw, ond ni chânt bleidleisio. Hefyd, caiff Aelodau ysgrifennu at y cadeirydd a gofyn bod eu sylwadau ar unrhyw agwedd ar waith y Cynulliad yn cael eu cyflwyno i’w hystyried gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod nesaf, a bydd y Cadeirydd yn trefnu i’r cyfryw gyflwyno ddigwydd

**<u>Adroddiadau</u>**

15.5 Bydd y Pwyllgor yn adrodd i’r Cynulliad o bryd i’w gilydd.

**Atodiad B**

**AELODAETH Y PWYLLGOR MATERION EWROPEIADD**

Dyma aelodaeth y Pwyllogr a etholwyd ar 10 Mai 2000:

Rhodri Morgan Llafur Gorllewin Caerdydd

(Cadeirydd)

Nicholas Bourne Ceidwadwr Y Canolbarth a’r Gorllewin

Mick Bates Democrat Rhyddfrydol Maldwyn

Delyth Evans Llafur Y Canolbarth a’r Gorllewin

Val Feld Llafur Dwyrain Abertawe

Christine Gwyther Llafur Dwyrain Caerfyrddin a De Phenfro

Jocelyn Davies Plaid Cymru Dwyrain De Cymru

Jonathan Morgan Ceidwadwr Canol De Cymru

Alun Pugh Llafur Gorllewin Clwyd

Rhodri Glyn ThomasPlaid Cymru Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr

Phil Williams Plaid Cymru Dwyrain De Cymru

Alun Michael (Llafur: Canolbarth a Gorllewn Cymru) oedd cadeirydd y Pwyllgor rhwng 23 Mehefin 1999 a 29 Chwefror 2000 a bu’n aelod rhwng 29 Chwefror 2000 a 30 Ebrill 2000.

Roedd Elin Jones (Llafur: Ceredigion) yn aelod rhwng 23 Mehefin 1999 a 31 Ionawr 2000.